


CYNGOR TREF PORTHMADOG



ADRODDIAD BLYNYDDOL 2020– 2021



Cynnwys

- Tud 3 Gair gan y Cadeirydd
- Tud 4 Croeso
- Tud 5 a 6 Ardal Porthmadog
- Tud 7 Cyfrifoldebau
- Tud 8 Cae Pawb
- Tud 9 Bryn Coffa
- Tud 10 Cae Chwarae Bodawen
- Tud 11 Aelodau Cyngor Tref Porthmadog
- Tud 12 Staff a Chyfarfodydd y Cyngor
- Tud 13 Gwefan y Cyngor ac Aelodaeth Allanol
- Tud 14 Atebolrwydd, Cyllid a Gwariant
- Tud 15 Mantolen 2020 – 2021
- Tud 16 Ffurflen Flynyddol 2020 - 2021
- Tud 17 Materion Polisi, Codi Materion gyda Chyngor
Gwynedd ac Asiantiaethau eraill
- Tud 18 Ceisiadau Cynllunio
- Tud 19 Grantiau

Gair gan y Cadeirydd

Mae sgil effeithiau Cofid wedi bod yn bell-gyrhaeddol ac wedi effeithio ar fywyd pob dydd bob un ohonom ers fis Mawrth 2020. Mae ein cydymdeimlad yn ddiffuant iawn tuag at y rhai sydd wedi colli anwyliaid i'r haint yma a thuag at y rhai sydd yn parhau i ddioddef.

Gwelir fel y mae'r aflwydd wedi cael effaith andwyol ar fusnesau yn ogystal ag ar bob agwedd o fywyd cymdeithasol a diwylliannol. Roedd tref Porthmadog yn lle distaw a gwag iawn yn ystod y Cyfnod Clo cyntaf yllynedd a braf oedd gweld bywyd yn dychwelyd i'r ardal pan ddaeth y cyfnod hwnnw i ben a gwelwyd y prysurdeb ymwelwyr arferol unwaith eto.


Bu rhaid newid ein ffordd o fyw yn sylweddol a da yw gweld bod busnesau lleol wedi llwyddo i addasu er mwyn sicrhau llwyddiant a pharhâd i'w busnesau a bod y newidiadau a'r addasiadau a wnaethant wedi golygu prysurdeb a ffyniant unwaith yn rhagor yn nhref Porthmadog.

Ni chynhaliwyd cyfarfodydd o'r Cyngor yn ystod misoedd cyntaf y Cyfnod Clo ond dysgwyd i addasu ac i ddefnyddio'r dechnoleg newydd i barhau â dyletswyddau arferol y Cyngor trwy gynnal cyfarfodydd misol yn rhithiol. Mae cyfarfodydd y Cyngor yn parhau i gael eu cynnal ar Zoom.

Ergyd drom i Gyngor Tref Porthmadog oedd marwolaeth y cyn-Glerc, Glenda Burke ar Chwefror 6ed 2021. Roedd Glenda yn un o fil, yn uchel iawn ei pharch ymhlith trigolion Porthmadog ac yn annwyl iawn gan aelodau'r Cyngor Tref. Bydd gweld ei cholli yn arw ar sawl mudiad a chymdeithas yn ardal Porthmadog.

Er gwaetha'r sefyllfa anodd yn ystod 2020 llwyddodd y Cyngor Tref yn ei amcanion i wasanaethu trigolion ardal Porthmadog. Hyderwn y gall y Cyngor Tref wireddu ei amcanion ar gyfer 2021 – 2022 ac y gallwn barhau i weld yr ardal yn ffynnu yn y flwyddyn sydd i ddod.

Cynghorydd Gwilym Jones
Cadeirydd 2020 - 2021



Croeso

Mae ardal Cyngor Tref Porthmadog yn cynnwys tref Porthmadog ei hun yn ogystal â phentrefi Borth-y-Gest, Morfa Bychan, Pwllgoleulas a Thremadog.

Codwyd Tremadog ar dir a gipiwyd o'r môr ar ôl i William Alexander Madocks gwblhau'r morglawdd neu'r Cob dros aber Afon Glaslyn neu'r Traeth Mawr yn 1811. Tyfodd Porthmadog wedyn yn sgil datblygu diwydiant llechi Blaenau Ffestiniog fel porthladd ar gyfer allforio'r garreg las i bedwar ban byd. Yn ystod y cyfnod hwn hefyd roedd Porthmadog a Borth-y-Gest yn ganolfannau adeiladu llongau masnach o bwys.

Cyrchfan boblogaidd i ymwelwyr yw'r ardal erbyn hyn wrth iddynt heidio am draethau godidog Bae Tremadog neu am fynyddoedd a chlogwyni heriol Eryri. Mae yma amrwyiaeth o lety yn ogystal â bwytai a thafarndai sy'n cynnig prydau diddorol, blasus a fforddiadwy.

Bro Gymraeg yw Porthmadog gyda'r iaith a'r diwylliant yn greiddiol i'w hunaniaeth. Dyma fu cartref Eifion Wyn a William Jones Tremadog, Alltud Eifion - a Percy Bushe Shelley hefyd yn ei dro. Bu Twm o'r Nant yn troedio'r ardal a dyma fan geni Thomas Edward Lawrence o Arabia a'r tenor adnabyddus, Rhys Meirion.

Mae Porthmadog wedi'i gefeillio â thref Wiclo (Cill Mhantáin) yn Iwerddon.

Felly dewch i ardal Porthmadog i brofi ein diwylliant unigryw, ein hanes cyffrous a'r golygfeydd ysblennydd. Chewch chi mo'ch siomi.



Ardal Porthmadog

Disgrifiad o'r ardal sy'n cael ei chynrychioli gan y Cyngor.

Mae ardal Cyngor Tref Porthmadog yn cynnwys tref Porthmadog ei hun yn ogystal â phentrefi Borth-y-Gest, Morfa Bychan, Pwllgoleulas a Thremadog.

Mae Porthmadog a Thremadog yn drefi cymharol newydd ac roedd 2011 yn flwyddyn bwysig wrth i'r ardal ddathlu dauganmlwyddiant adeiladu'r Cob enwog gan William Alexander Madocks.



Tref harbwr yw Porthmadog ac mae'r ardal yn gyrchfan twristaidd boblogaidd. Mae miloedd yn heidio yma bob blwyddyn, boed i ymweld â'r traethau a'r mynyddoedd, i fwynhau'r siopau a'r bwytai amrywiol, neu i gael blas ar yr hanes diwylliannol a diwydiannol cyfoethog sy'n perthyn i'r ardal.

Yr harbwr yw canolbwynt Porthmadog. Oni bai am yr harbwr ni fyddai Porthmadog yn bod fel tref. Yn ei ddydd roedd yr harbwr yn ferw o weithgaredd fel porthladd prysurau'r byd am allforio llechi ac fel cartref i'r diwydiant adeiladu llongau ddatblygodd yn ei sgil. Heddiw llongau pleser sydd wedi angori yn harbwr Porthmadog ac mae yna dawelwch hyfryd i'w gael o droedio ar hyd y cei gan ddychmygu'r prysurdeb a fu a'r ffyniant ddeilliodd o hynny. Mae ymweliad â'r Amgueddfa Fôr gerllaw yn gyfle i ail-fyw'r gorffennol a dysgu mwy am hanes morwrol unigryw harbwr Porthmadog.

Mae'r iaith Gymraeg yn iaith fyw ac yn rhan bwysig o ddiwylliant a hunaniaeth trigolion Porthmadog a'r ardal.

Mae tref Porthmadog wedi gefeillio â thref Wiclo yn Iwerddon. Gefeillwyd Porthmadog â Wiclo yn 2006 pan arwyddwyd siarter o gyfeillgarwch a chydweithio rhwng cynghorau'r ddwy dref. Mae'r siarter i'w gweld yn Y Ganolfan ym Mhorthmadog ac yn Neuadd y Dref yn Wiclo. Ers hynny bu mynych ymweliadau rhwng y ddwy dref wrth i gorau, bandiau ac amrwyiol gymdeithasau deithio'n ôl ac ymlaen dros Fôr Iwerddon gan greu cysylltiadau a chyfarfod â ffrindiau hen a newydd. Mae Clybiau Hwyllo'r ddwy dref yn gyfarwydd â'i gilydd ers blynyddoedd ac mae'r cysylltiad wnaed rhwng Gwasanaethau Tân Porthmadog a Wiclo yn un o lwyddiannau mawr y gefeillo.

Ewch i www.porthmadog.co.uk i gael golwg ar arweinlyfr Porthmadog ac i gael mwy o wybodaeth am y dref.



Cyfrifoldebau

Disgrifiad cyffredinol o gyfrifoldebau a gweithgareddau Cyngor Tref Porthmadog.

Cynhelir cyfarfodydd Cyngor Tref Porthmadog fel arfer ar yr ail ddydd Mawrth o bob mis yn y Ganolfan, Porthmadog am 19:00 ond ar hyn o bryd mae'r cyfarfodydd yn rhithio, ar Zoom. Mae'r cyfarfodydd hyn yn agored i'r cyhoedd. Annogir aelodau o'r cyhoedd i gysylltu â'r Cyngor gyda'u sylwadau neu bryderon ac mae'r Cyngor yn credu ei bod hi'n hanfodol cael perthynas dda gyda'r etholwyr.

Mae Cyngor Tref Porthmadog yn gyfrifol am ddarparu amrywiaeth o wahanol wasanaethau o fewn yr ardal y mae'n ei gynrychioli ac yn gweithredu yn agored a thryloyw er budd ac ar ran y gymuned gyfan.

Rhai o gyfrifoldebau Cyngor Tref Porthmadog yw:

- Gosod y praesept, sef y dreth ddomestig sy'n cael ei ddosbarthu i'r Cyngor Tref bob blwyddyn.
- Cyflwyno sylwadau ar geisiadau cynllunio sy'n cael eu cyflwyno i'r awdurdod cynllunio.
- Cynnal a chadw ein tiroedd a'n heiddo sef Cae Pawb, Bryn Coffa, Cae Chwarae Bodawen a'r llwybrau cyhoeddus sy'n dod o dan gyfrifoldeb Cyngor Tref Porthmadog.
- Mae Cyngor Tref Porthmadog yn gweithio mewn partneriaeth gyda grwpiau cymunedol a gwirfoddol er lles yr amgylchedd, yr amgylchfyd a'r gymuned.

Cae Pawb



Rhandiroedd Cyngor Tref Porthmadog yw Cae Pawb a leolir ym mhen ddwyreiniol Stryd Wesla ar y ffordd i weithfydd Rheilffordd Ucheldir Eryri heibio i Siop Kaleidoscope ac ar y chwith wrth safle Dŵr Cymru.

Hanner cant a thri o blotiau sydd yng Nghae Pawb gyda phob un wedi ei osod. Rhoddir blaenoriaeth i drigolion dalgyloch y Cyngor Tref.

£17 punt y flwyddyn, yn cynnwys £2 at gostau torri gwair, yw gost pob rhandir beth bynnag ei faint.

Mae yna bwyllgor o denantiad yn gofalu am y safle.

Os dymunwch fod ar y rhestr aros, cysylltwch â'r clerc ar clerccyngtreport@gmail.com

Bryn Coffa



Cofgolofn Tref Porthmadog i'r rhai a gollodd eu bywydau yn y ddau Ryfel Byd yw Bryn Coffa. Mae'r Groes i'w gweld yn glir uwchlaw'r ffordd ar Ynys Galch wrth deitho o Porthmadog i gyfeiriad Tremadog ger Ysgol Eifionydd.

Rhoddwyd y golofn yn rhodd i'r dref gan deulu o Borthmadog a gollodd fab yn y Rhyfel Mawr.

Yn ddiweddar gosodwyd canllaw ar y llwybr at y gofeb a rhoddwyd concriid ar ei wyneb.

Cae Chwarae Bodawen



Prynwyd Cae Chwarae Bodawen gan Gyngor Tref Porthmadog yng nghanol y saithdegau ac fe fuddsoddir yn rheolaidd ar y cyfarpar chwarae yno – gan gynnwys darpariaeth chwarae ar gyfer plant ag anableddau.

Yng Nghae Chwarae Bodawen mae Meini Gorsedd y Beirdd a osodwyd yno ar gyfer seremonïau Eisteddfod Genedlaethol Cymru Bro Madog a gynhaliwyd ar gyrion y dref ym 1987.

Hawlfraint Lluniau:

Prif Llun Harbwr Porthmadog: [Ken Bagnall](#)

Llyn Bach: [Kenneth Allen](#), Graig Ddu: [Chris Carlson](#), Harbwr Borth Y Gest: [David Medcalf](#), Gist Gerrig: [Dewi](#), Harbwr Porthmadog: [Alan Fryer](#).

Stryd Fawr, Porthmadog: [John Lucas](#), Stryd Fawr, Porthmadog: [Eric Jones](#), Tremadog: [Eric Jones](#)

Aelodau

CYNGHORWYR CYNGOR TREF PORTHMADOG

Mai 2020

Ward Gymuned Porthmadog – Tremadog

Cynghorydd Alwyn Gruffydd (hefyd yn Gynghorydd Sir)
Cynghorydd Bethan Ogwen Rees Jones
Cynghorydd Aled Griffith

Ward Gymuned Porthmadog – Gêst

Cynghorydd Dr Simon Brooks
Cynghorydd Dr Melfyn Edwards

Ward Gymuned Porthmadog – Gorllewin

Cynghorydd Ian Jones
Cynghorydd Llywelyn Rhys
Cynghorydd Gareth Williams

Ward Gymuned Porthmadog – Ynys Galch

Cynghorydd Carol Hayes
Cynghorydd Nia Jeffreys (hefyd yn Gynghorydd Sir)
Cynghorydd Gwilym Jones

Ward Gymuned Porthmadog – Dwyreiniol

Cynghorydd Paul Jason Humphreys
Cynghorydd Dafydd Lake
Cynghorydd Richard Williams

Ward Gymuned Porthmadog – Morfa Bychan

Cynghorydd Evan Selwyn Griffiths (hefyd yn Gynghorydd Sir)

Gweithwyr

Clerc a Swyddog Ariannol presennol Cyngor Tref Porthmadog yw Marian Roberts. Mae'r Clerc yn gweithio yn rhan amser.

Dyma'r manylion cysylltu :-

e-bost	clerccyngtreport@gmail.com
ffôn	01766 513709
cyfeiriad	Tawelfan 29 Maes Gerddi Porthmadog LI49 9LE

Cyfarfodydd.

Rydym wedi ymateb i Reoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) a basiwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2020 o ganlyniad i bandemig Covid-19 i alluogi Cyngorau Cymuned a Thref i gwrdd o bell er mwyn parhau â'n gwaith yng ngoleuni'r cloi a gwaharddiad yn cael ei roi ar gyfer cyfarfodydd wyneb yn wyneb. Gwnaed trefniadau priodol i allu parhau â'n busnes drwy gyfarfod o bell yn 2020-21

Oherwydd cyfyngiadau COFID mae cyfarfodydd y Cyngor Tref yn cael eu cynnal trwy ZOOM, ar ail nos Fawrth bob mis am 7 y.h.

Cynhelir y cyfarfodydd yn Gymraeg.

Mae croeso i'r cyhoedd fynychu a gadael i'r Clerc wybod os oes angen darpar cyfieithu. Ni chynhelir cyfarfod ym mis Awst.

Cyhoeddir Rhaglen pob cyfarfod ar wefan y Cyngor.

<http://www.cyngortrefporthmadog.org>

Cyhoeddir Cofnodion Drafft pob cyfarfod ar y wefan o fewn 7 diwrnod wedi'r cyfarfod.

Cynhelir cyfarfod o'r Is-Bwyllgor Eiddo a Cyllid a Datblygu 4 gwaith y flwyddyn.

Gwefan Cyngor Tref Porthmadog

<http://www.cyngortrefporthmadog.org>

Ar y wefan ceir gwybodaeth am y Cyngor Tref sydd yn cynnwys aelodaeth, rhaglenni cyfarfodydd, cofnodion, dogfennaeth a chyfrifon y Cyngor.

Aelodaeth allanol

Mae'r Cyngor Tref yn aelod o Unllais Cymru, sef y prif gorff ar gyfer Cynghorau cymuned a thref Cymru. Mae aelodaeth o Unllais Cymru yn cynnwys mynediad i gyngor cyfreithiol, hyfforddiant, cyngor ar bolisïau, gwybodaeth o'r Cynulliad a chyngor ar wella darpariaeth a gwasanaethau'r Cyngor. Mae'r Clerc yn aelod o Gymdeithas y Clercod SLCC ac yn manteisio ar ohebiaeth a hyfforddiant ganddynt.

Mae gan y Cyngor Tref gynrychiolaeth ar y canlynol :-

- Is Bwyllgor Harbwr Porthmadog
- Ymddiriedolaeth Rebecca
- Y Ganolfan
- Amgueddfa Forwrol Porthmadog
- Clwb Chwaraeon Madog
- Y Ganolfan Gyngori
- Pwyllgor Ymgyrch Ysbyty
- Grŵp Mynediad Dwyfor
- Caru Port
- Pwyllgor Efeillio
- Pwyllgor Ardal Dwyfor (Un Llais Cymru)

Atebolrwydd.

Mae gofyn i Gynghorwyr ddatgan unrhyw ddi-ddordeb ar eitem i'w drafod ar gychwyn bob cyfarfod. Bydd hyn yn cael ei nodi yn y cofnodion. Mae'r cyfrifon yn cael eu rheoli gan y Clerc sydd hefyd yn Swyddog Ariannol Cyngor Tref Porthmadog. Cyngor Gwynedd sydd yn cynnal archwiliad mewnol o'r cyfrifon a Llywodfreath Cymru yr archwiliad allanol ar ran Swyddfa Archwilio Cymru. Bydd Is-Bwyllgor Cyllid Cyngor Tref Porthmadog yn sicrhau cywirdeb a safon rheolaeth y cyfrifon.

Cyllid a Gwariant

Mae'r gyllideb yn cael ei gosod yn flynyddol ac yn cael ei chymeradwyo gan y Cyngor Llawn. Bydd adolygu trwy'r flwyddyn gan y Cyngor a'r Is-Bwyllgor Cyllid gyda adroddiadau rheolaidd gan y Clerc. Y Praesept yw prif ffynhonnell ariannol y Cyngor. Mae gosod y Praesept yn broses sydd yn cymryd i ystyried costau tebygol y Cyngor ac unrhyw brosiectau sydd yn arwain at benderfyniad maint y Praesept.

MANTOLEN

CYNGOR TREF PORTHMADOG

INCWM / GWARIANT 2020 – 2021

INCWM

Praesept	£62,581.43
Ad-daliad TAW	£ 5,151.23
Cae Pawb – dim taliad Cofid	£
Llog Banc	£ 15.94
Ad-daliad torri gwair	£ 1,064.50
Incwm meysydd parcio	£12,292.21
Cyfraniad Caru Port	<u>£ 3,200.00</u>
	£84,305.31

GWARIANT

Costau Gweinyddol	£ 3,379.85
Cronfa'r Cadeirydd	£ 1,200.00
Lwfansau Cynghorwyr	£ 1,200.00
Cyflog y Clerc	£ 7,238.40
Treth Incwm	£ 2,109.60
Yswiriant	£ 1,593.40
Hyfforddiant	<u>£ 330.00</u>
	<u>£ 17,051.25</u>
Cae Pawb	£ 305.54
A137	£ 15,427.00
A145	£ 7,500.00
Parciau a manau agored	£ 12,320.74
Nadolig	£ 17,016.88
	£69,621.41

Incwm ar ôl gwariant £14,683.90

MANTOLEN

Yn y banc 31.3.2020

Cyfrif Cyfredol	£ 17,452.37
Sieciau heb eu cyflwyno	<u>£ 1,138.80</u>
	£ 16,313.57
Cyfrif Cadw	£ 33,919.62

Yn y banc 31.3.2021

Cyfrif Cyfredol	£31,461.53
Sieciau heb eu cyflwyno	- <u>£ 480.00</u>

£30,981.53

Cyfrif Cadw £33,935.56

Cynnydd mewn balans yn y banc £14,683.90

Marian Roberts

Mawrth 31 2021

Datganiadau cyfrifyddu 2020-21 ar gyfer:

Enw'r corff:

Cyngor Tref Portmadog

	Y flwyddyn a ddaeth i ben		Nodiadau a rhannweddau (Yn awgrym i'n ffaithol'n cyfrifon)
	31 Mawrth 2020	31 Mawrth 2021	
	(£)	(£)	Dylech datgynnwch holl ffigurau (Yn £ agosaf). Ffidiwrch a gadael unrhyw ffigurau yn wag os chofnodid balansau o £0 neu ddim. Rhaid i bob ffigur fod yn gyson â'r colledion atennol sylfaenol ar gyfer y flwyddyn berthnasol.

Datganiad o incwm a gwarant/derbyniadau a tholladau

1. Balansau a ddygwyd ymlaen	51,498	90,233	Cyfanswm y balansau a'r cronfeydd wrth gaffwr ar ddechrau'r flwyddyn fel y'u colledwyd yn y colledion atennol. Rhaid iddo fod yn gyson â Llinell 7 y flwyddyn flaenorol.
2. (+) Incwm o droffiant fecundol	68,709	62,581	Cyfanswm yr incwm a dderbyniwyd/derbyniadau yn ystod y flwyddyn o droffiant fecundol (grawstap) neu ardol/cyfraniad gan brif gerff.
3. (-) Cyfanswm derbyniadau eraill	6,458	21,724	Cyfanswm incwm neu dderbyniadau a gaffwrwyd yn y llyfr arllan parod fel yr arianau a gynhyrwyd yn llinell 2. Mae'n cynnwys grantiau cymorth, deudol a rhesur.
4. (-) Costau staff	8,582	9,048	Cyfanswm gwarant neu daladau a wnaed i bob gweithiwr cyflogedig ac ar ei ran. Dylech gynnwys cyflogau, TWE ac Yswiriant Gwladol (cyflogion a chyflogwyr), cyfraniadau pensïon a throsau cyfylliwr, i.e. costau twym.
5. (-) Llog ar ferthyddiaid ad-daladau cyfrif	0	0	Cyfanswm gwarant neu daladau cyfrif a llog a wnaed yn ystod y flwyddyn ar ferthyddiaid allanol (os o gebl).
6. (-) Cyfanswm taladau eraill	58,581	68,573	Cyfanswm gwarant neu daladau fel y'u colledwyd yn y llyfr arllan parod fel costau staff (Llinell 4) a llog ar ferthyddiaid/ad-daladau cyfrif (Llinell 5).
7. (+) Balansau a garwyd ymlaen	90,233	64,917	Cyfanswm y balansau a'r cronfeydd wrth gaffwr ar ddiwedd y flwyddyn. Rhaid iddo fod yn hafal i: (1+2+3) - (4+5+6).

Datganiad o falensau

8. (+) Dyledwyr	0	0	Cyfrifon incwm a gwarant yn unig. Nodwch werth dyledion sy'n ddyledus i'r corff ar ddiwedd y flwyddyn.
9. (+) Cyfanswm arian parod a buddsoddiadau	90,233	64,917	Pob cyfrif: Swm yr holl gyllid banc, cyfrifol a chadw, daladau atennol a buddsoddiadau a ddiro ar 31 Mawrth. Rhaid i hyn fod yn gyson â balens cyson'r llyfr arllan parod yn aml â chyswlliad y banc.
10. (-) Cronfeydd	0	0	Cyfrifon incwm a gwarant yn unig. Nodwch werth yr arian sy'n ddyledus gan y corff (heblaw costau benffyr) ar ddiwedd y flwyddyn.
11. (-) Balansau a garwyd ymlaen	90,233	64,917	Dylai cyfanswm y balansau fod yn gyson â llinell 7 uchod. Nodwch cyfanswm (8+9-10).
12. Cyfanswm asedau cofrestrig ac asedau hirdymor	18,381	21,689	Gwerth cofrestrig asedau a buddsoddiadau pob ased sefydlog, ynghyd ag unrhyw asedau hirdymor eraill a ddiro ar 31 Mawrth.
13. Cyfanswm ferthyddiaid	0	0	Balens cyfrifol dyledus pob ferthyddiad o drydydd parllan ar 31 Mawrth (gan gynnwys PAYE).

	Nidy	Mae'n golygu	Amh.	Ydy	Nac ydy	Amh.
14. Ffidiwr datgela cronfeydd ymddiriedolaeth	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

Mae'r corff yn gweithredu fel unig ymddiriedolaeth ac mae'n gyfrifol am reoli (a) cronfa/cronfeydd ymddiriedolaeth' asedau (dylai darlennwyr nodi nad yw'r ffigurau uchod yn cynnwys unrhyw ddatgelaion ymddiriedolaeth).

CYFRANIADAU 2020 – 2021

Ym mis Ionawr bob blwyddyn gwahoddir elusennau, cymdeithasau, mudiadau a chlybiau lleol i wneud ceisiadau am nawdd ariannol gan y Cyngor Tref. Trafodir pob cais yn unigol yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Chwefror ac ym mis Chwefror 2021 rhannwyd y cyfraniadau fel a ganlyn :-

ENW'R ELUSEN/ CYMDEITHAS/ CLWB			
	Cyfraniad A137	Cyfraniad A145	Cyfraniad A19
1. Yr Wylan		£500	
2. Eisteddfod yr Urdd		£100	
3. Clwb Pêl Droed Porthmadog			£5,000
4. Tremadog 200 Digwyddiadau	£1,500		
5. Tremadog 200 Prosiectau Amgylcheddol	Rhannwyd y swm rhwng y ddau gais.		
6. Neuadd Goffa Tremadog		£3,000	
7. Tŷ Gobaith			
8. Cyfeillion Ysgol y Gorlan	£200		
9. Cylch Meithrin Porthmadog	£750		
10. Clwb Rhandiroedd Cae Pawb			£600
11. Cylch Meithrin y Gorlan Fach	£750		
12. Y Ganolfan		£7,500.00	
Gwariant ar 2 Ddiffibriliwr			£2,807.00
CYFANSWM	£3,200.00	£11,100.00	£8,407.00

Materion Polisi

Mae'r Dogfennau a'r Polisiâu'r canlynol yn cael eu hadolygu yn flynyddol yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol pob mis Mai.

- Rheolau Sefydlog
- Rheolau Ariannol
- Côt Ymddygiad
- Archwiliad Mewnol y Cyngor
- Asesiadau Risg
- Cofrestr Asedau
- Polisi Cynllunio
- Polisi di-bapur
- Polisi Iaith
- Polisi Datganiadau i'r Wasg

Codi materion gyda Chyngor Gwynedd ac eraill

Mae Cyngor Tref Porthmadog yn croesawu cyfraniad y cyhoedd trwy dderbyn ac ymateb i lythyrau neu ebyst ganddynt. Yn ystod y flwyddyn a aeth heibio rydym wedi llwyddo i gyfeirio eu pryderon am y materion canlynol ac wedi llwyddo i weithredu i geisio datrys y problemau wrth gyfeirio'r materion at Gyngor Gwynedd neu at asiantaethau perthnasol eraill.

- Graeanu
- Cyflwr ffyrdd
- Llochesi bws
- Cyflwr llwybrau
- Cyflwr adeiladau hanesyddol
- Problem gwyllanod



Yr hebogwr, John Parry Evans, wrth ei waith ar strydoedd cefn Porthmadog.



Melin yr Wyddfa, Porthmadog

Derbyniwyd cwyn gan aelod o'r cyhoedd am gyflwr peryglus yr adeilad hanesyddol yma. Yn dilyn llythyru at Gyngor Gwynedd mae'r perchnogion bellach wedi dechrau clirio a gwella rhywfaint ar gyflwr yr adeilad.



Mae'r Cyngor hefyd wedi llythyru Aelodau Seneddol, Aelodau'r Cynulliad, Dŵr Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru ynglyn â materion mwy eang megis :-

- diffyg tai fforddiadwy lleol
- ail gartrefi
- carthffosiaeth
- perygl llifogydd
- tirlithriadau

Ceisiadau Cynllunio

Bydd y Cyngor Tref yn trafod pob Cais Cynllunio a dderbynir gan Adran Gynllunio Cyngor Gwynedd yn eu cyfarfodydd ac yn mynegi eu barn fel corff er mwyn adrodd yn ôl i'r Adran Gynllunio ar unrhyw sylw, amod neu wrthwynebiad i Gais Cynllunio. Bydd y Clerc yn ebostio manylion pob Cais at y Cynghorwyr fel y cânt ddigon o amser i astudio manylion y cais cyn y cyfarfod er mwyn dod i benderfyniad arno. Hysbysir yr Adran Gynllunio o benderfyniad y Cyngor a chyhoeddir penderfyniad y Cyngor ar y cais yng nghofnodion y cyfarfod.

Ar adegau pan fydd y cais wedi cyrraedd y Clerc yn rhy hwyr i'w gynnwys yn y rhaglen ac i gael ei drafod mewn cyfarfod yna bydd y Cynghorwyr yn ymateb yn unigol i'r Cais Cynllunio yn uniongyrchol i'r Adran Gynllunio. Trafodwyd a daethpwyd i benderfyniad ar 23 Cais Cynllunio rhwng Ebrill 2020 a Mawrth 2021.

Grantiau

Mewn ymdrech i wella canol tref Porthmadog, ym mis Mawrth 2021 gwnaethpwyd cais am Grant Cronfa Cefnogi Cymunedau o Gronfa Cyfalaf Canol Trefi Gwynedd. Bu'r cais yn llwyddiannus a derbyniwyd £2180.40 tuag at gostau prynu a gosod hysbysfwrdd newydd ar gyrion y parc ym Mhorthmadog. Mae'r hysbysfwrdd bellach yn ei le ac yn cynnwys newyddion a gwybodaeth am y Cyngor.



Wrth ystyried lles a iechyd trigolion ardal Porthmadog penderfynodd y Cyngor Tref fod angen gwella'r ddarpariaeth o ddiffibrilwyr yn y dref. Gwnaethpwyd arolwg o leoliadau presennol diffibrilwyr Porthmadog a phenderfynwyd archebu 2 ddiffibriliwr newydd am bris gostyngol drwy'r elusen Calonnau Cymru a'u gosod, y naill ar wal allanol Meithrinfa'r Hen Ysgol, Heol yr Wyddfa a'r llall ar wal allanol Lidl.

Marian Roberts
Clerc Cyngor Tref Porthmadog
Mehefin 2021